INFO 06/07/01 13 GORFFENNAF 2006

YMGYSYLLTU Â DEFNYDDWYR: CASGLU TYSTIOLAETH GAN DDEFNYDDWYR

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r Papur Gwybodaeth hwn yn canolbwyntio ar y dulliau a ddefnyddir gan yr Asiantaeth ar hyn o bryd i ganfod a chasglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr yn defnyddio enghreifftiau o ymagweddau newydd y bu'r Asiantaeth yn eu treialu dros y chwe mis diwethaf. Mae hefyd yn nodi sut y gallai'r Asiantaeth ddatblygu ei gwaith yn y maes hwn ymhellach.

Camau i'w Cymryd gan y Bwrdd

2. Gwahoddir y Bwrdd i:

   - **nodi'r** gweithgareddau sydd ar waith ar hyn o bryd i gasglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr.

ADRAN GYFATHREBU
Cysylltwch â:

Jaz Bangar Ffôn: 020 7276 8179
Ebost: jaswinder.bangar@foodstandards.gsi.gov.uk

Terrence Collis Ffôn: 020 7276 8810
Ebost: terrence.collis@foodstandards.gsi.gov.uk

INFO 06/07/01

13 GORFFENNAF 2006

YMGYSYLLTU Â DEFNYDDWYR: CASGLU TYSTIOLAETH GAN DDEFNYDDWYR

Nod Strategol

1. Mae angen i ni ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn 'rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf' a chyflawni ein hamcanion fel y'u nodwyd yng Nghynllun Strategol 2005/2010[1].

Mater

2. Cytunodd y Bwrdd i wrando ar y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr Asiantaeth o ran ymgysylltu â defnyddwyr yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf [h.y y Papur Gwybodaeth hwn] yn canolbwyntio ar y dulliau y mae'r Asiantaeth yn eu defnyddio ar hyn o bryd i ganfod a chasglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr ac yn defnyddio enghreifftiau o ymagweddau newydd y bu'r Asiantaeth yn eu treialu dros y chwe mis diwethaf.

3. Bydd papur mwy cynhwysfawr yn amlinellu'r opsiynau posibl ar gyfer model ymgysylltu â defnyddwyr a sut y gallai'r Asiantaeth sicrhau bod ei gwaith yn y maes hwn yn drwyadl a chadarn yn cael ei gyhoeddi i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2006.

Cefndir

4. Ym mis Rhagfyr 2005, cytunodd y Bwrdd ar y canlynol:

   - Dylid diddymu Pwyllgor Defnyddwyr presennol yr Asiantaeth[2]gael ei ddiddymu.

   - Dylid archwilio ffyrdd creadigol ac arbrofol o ymgysylltu â defnyddwyr unigol, gan gynnwys bod yn ymwybodol o farn defnyddwyr.

   - Dylid datblygu model cysyniadol ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr.

[1]Cynllun Strategol 2005/2010 Rhoi defnyddwyr yn gyntaf (Mawrth 2005).
[2]Sefydlwyd y Pwyllgor Defnyddwyr yn 2002. Roedd yn cynnwys 6 chynrychiolydd o sefydliadau defnyddwyr a 6 unigolyn a recriwtiwyd trwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys: hysbysu'r Asiantaeth am faterion allweddol sy'n achosi pryder i ddefnyddwyr ar hyn o bryd neu faterion sy'n dod i'r amlwg; sylwebu ar amcanion strategol a blaengynllun; rhoi adborth i'r Asiantaeth ar effeithiolrwydd ei pholisïau o ran ymateb i bryderon defnyddwyr; rhoi cyngor ar fethodolegau ymgynghori â defnyddwyr; adolygu gwaith cynrychiolwyr defnyddwyr ar bwyllgorau cynghori; hyrwyddo cydweithio rhwng yr Asiantaeth â grwpiau defnyddwyr a chynnig cyngor ar unrhyw faterion eraill a allai fod yn gysylltiedig ag ef.

- Dylid ystyried materion sicrhau ansawdd a gwerthuso ymhellach.

5. Mae'r Asiantaeth yn gyfarwydd â cheisio a chasglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr. Mae hyn yn rhannol oherwydd ein cyfrifoldeb, fel y'i nodir yn y Ddeddf Safonau Bwyd, i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'u buddiannau mewn perthynas â bwyd[3]. Nid yw'r Papur Gwybodaeth hwn yn ceisio cwmpasu'r holl waith a gyflawnwyd gennym hyd yma, ond mae'n nodi sut rydym yn casglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr a'r dulliau rydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae hefyd yn rhoi disgrifiad cryno o'r ymagweddau a dreialwyd gennym yn ystod y chwe mis diwethaf er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr unigol ac mae'n amlinellu sut y gallai'r Asiantaeth ddatblygu ei waith yn y maes hwn ymhellach.

Casglu Tystiolaeth gan Ddefnyddwyr

6. Mae'r Asiantaeth yn casglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr mewn pedair prif ffordd. Ymhlith y rhain mae'r gwyddorau cymdeithasol[4], ymchwil i'r farchnad (ymchwil feintiol ac ansoddol) ac ymgysylltu â defnyddwyr unigol. Ceir crynodeb o hyn yn y siart isod.



Social Sciences	Gwyddorau Cymdeithasol
Individual Consumer Engagement	Ymgysylltu â Defnyddwyr Unigol
Quantitative Market Research	Ymchwil Feintiol i'r Farchnad
Qualitative Market Research	Ymchwil Ansoddol i'r Farchnad

[3]Gweler Deddf Safonau Bwyd 1999
[4]Yn gyffredinol mae'r term gwyddorau cymdeithasol yn cyfeirio at ystod eang o ddisgyblaethau megis seicoleg, cymdeithaseg, anthropoleg, ystadegau cymdeithasol, economeg, daearyddiaeth ddynol, polisi cymdeithasol ac ati

Gwyddorau Cymdeithasol

7. Mae'r Asiantaeth eisoes yn defnyddio'r gwyddorau cymdeithasol. Dim ond dwy enghraifft o'r gwaith a gomisiynwyd gan yr Asiantaeth yn ddiweddar yw'r astudiaethau diweddar sy'n ymchwilio i fodolaeth "tlodi bwyd"[5]a'r sail seico-gymdeithasol y tu ôl i ddewisiadau bwyd[6].

8. Nid oes amheuaeth bod angen i'r Asiantaeth wneud mwy o ddefnydd o'r gwyddorau cymdeithasol er mwyn cyfoethogi tystiolaeth gan ddefnyddwyr yn y dyfodol. Mae'r Seminar Gwyddorau Cymdeithasol a gynhaliwyd yn ddiweddar[7]wedi helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r rôl y gall y gwyddorau cymdeithasol ei chwarae yn y gwaith o lunio cwestiynau polisi a symud y tu hwnt i gysyniadau syml o ddyraniadau, fel rhyw a hil, i ddadansoddiad mwy soffistigedig sy'n ystyried amrywiad a gwahaniaeth cymdeithasol.[8]

Ymchwil i'r Farchnad – Meintiol ac Ansoddol

9. Yn ogystal â disgyblaethau'r gwyddorau cymdeithasol, ceir disgyblaethau eraill sy'n ceisio egluro agweddau ac ymddygiad defnyddwyr. Mae technegau ymchwil gymdeithasol ac ymchwil i'r farchnad[9]yn cael eu defnyddio'n aml gan yr Asiantaeth i roi cipolwg o farn defnyddwyr ar faterion polisi penodol. Ymhlith yr enghreifftiau diweddar mae:

    - Ymchwil feintiol i ganfod patrymau bwyta a deall labelu cynhyrchion sy'n cynnwys cynhwysion sterol planhigion.

---

[5]Defnyddiodd yr astudiaethau hon ddata economaidd-gymdeithasol, dietegol a manwerthu i ymchwilio i batrymau ymddygiad a bwyta a chanfu bod angen i sefydliadau fynd i'r afael â gwybodaeth a sgiliau, yn ogystal â mynediad i siopau, i'r rheini sydd heb gar neu fath arall o drafnidiaeth er mwyn mynd i'r afael â thlodi bwyd (Do Food Deserts Exist? Prifysgol Newcastle Upon Tyne, 2003)

[6]Arweiniodd yr adolygiad hwn, a gynhaliwyd gan Sefydliad Maetheg Prydain at nodi ffyrdd sy'n effeithio ar ddewisiadau bwyd cadarnhaol (A critical review, Gorffennaf 2005)

[7]Cynhaliwyd y Seminar ar 28 Ebrill 2006 i wella dealltwriaeth yr Asiantaeth a'r Bwrdd o'r rôl y gall gwyddorau cymdeithasol ei chwarae i'n helpu i gyflawni'r amcanion a bennwyd yn ein Cynllun Strategol 5 mlynedd. Bu staff yr FSA, Aelodau'r Bwrdd, gwyddonwyr cymdeithasol allanol ac Uned Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a leolir yn y Trysorlys, yn rhan o'r digwyddiad.

[8]Rhan o araith Mike Kelly (NICE) mewn Seminar Gwyddorau Cymdeithasol diweddar.

[9]Mewn gwirionedd mae gwaith ymchwil cymdeithasol ac ymchwil i'r farchnad yn ddau gategori ar wahân ac yn aml bydd pobl yn drysu rhyngddynt oherwydd eu bod yn defnyddio'r un technegau. Mae ymchwil gymdeithasol wedi datblygu o'r disgyblaethau academaidd ac yn draddodiadol mae'n cynnwys rhyw fath o adolygiad llenyddol, gwaith maes a dadansoddiad manwl. Mae ymchwil i'r farchnad wedi datblygu o fyd busnes ac mae'n dueddol o gael ei ddefnyddio'n fwy ym maes marchnata, cysylltiadau cwsmeriaid, datblygu cynnyrch, hysbysebu ac ati. Mae'n dueddol o ganolbwyntio ar un mater, nid yw'n adolygu llenyddiaeth ac mae'r canlyniadau'n dueddol o fod yn seiliedig ar weithred.

- Ymchwil ansoddol (neu weithdai a ail gynlluniwyd) i hwyluso trafodaethau ymhlith defnyddwyr am y posibilrwydd o atgyfnerthu blawd ag asid ffolig.

- Ymchwil ansoddol ymhlith mamau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ffaith nad yw llaeth powdwr babanod yn ddiheintiedig ac i asesu p'un a oes galw am labeli bwyd gwell er mwyn cyfleu'r risg yn glir.

10. Mae llawer o'r gwaith ymchwil hwn yn arwain yn uniongyrchol at y broses o lunio polisi a buom yn gweithio'n galed dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddeilliodd o astudiaethau ymchwil gymdeithasol ac ymchwil i'r farchnad yn cael ei rhannu ar draws yr Asiantaeth trwy dudalennau Foodweb ar y Fewnrwyd. Mae angen ymgymryd â rhagor o waith er canfod themâu allweddol o'r holl waith ymchwil a gomisiynwyd gennym hyd yma ac i hysbysu'r swyddo gion polisi am faterion a thueddiadau pwysig.

Ymgysylltu â Defnyddwyr Unigol

11. Yn dilyn argymhellion y Bwrdd ym mis Rhagfyr (i fod yn ymwybodol o farn defnyddwyr) ac Adolygiad Dean[10] (a nododd nad oedd yr Asiantaeth yn gwneud digon i ganfod barn grwpiau defnyddwyr "llai amlwg"), rydym wedi bod yn treialu amrywiaeth o ymagweddau a all gasglu barn defnyddwyr yn uniongyrchol, yn arbennig y rhai sy'n anodd eu cyrraedd.

12. Mae ein gwaith o ymgysylltu â defnyddwyr wedi datblygu a newid llawer dros y chwe mis diwethaf (fel y dangosir yn Atodiad A), ond mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar 3 thema graidd (gweler Atodiad B am ragor o wybodaeth):

    - Digwyddiadau gwrando ar farn defnyddwyr
    - Gweithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau presennol ar faterion polisi pwysig
    - Defnyddio technoleg newydd

Rhanddeiliaid

13. Yn olaf, mae sefydliadau rhanddeiliaid hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran casglu a rhannu tystiolaeth gan ddefnyddwyr. Ers y dechrau, mae'r Asiantaeth wedi ceisio casglu eu barn trwy ymgynghoriadau, fforymau agored a thrwy gyfarfodydd ad hoc yn ogystal â chyfarfodydd a drefnwyd (ac mae sefydliadau wedi datgan eu barn yn agored). Yn fwy diweddar, rydym hefyd wedi dechrau ceisio barn cymdeithasau dinesig (cyrff anllywodraethol, elusennau iechyd a grwpiau lles y cyhoedd). Mae'r grwpiau hyn wedi gallu rhoi gwybodaeth benodol iawn i ni am eu grwpiau o gleientiaid a sut y dylem, fel Asiantaeth, ystyried eu hanghenion wrth ddatblygu polisi a lledaenu negeseuon. [11].

Camau Nesaf

14. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Asiantaeth wedi ymchwilio i nifer o ffyrdd arloesol o ymgysylltu â defnyddwyr a'u treialu. Mae'n glir bellach bod angen model ymgysylltu mwy strwythurol er mwyn galluogi'r Asiantaeth i ddatblygu ei gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o ddefnyddwyr, sy'n angenrheidiol fel sylfaen i'n holl gydberthnasau â rhanddeiliaid, yn arbennig yn ein gwaith gyda'r diwydiant a grwpiau defnyddwyr, lle y mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn arnom.

15. Rhaid i'r Asiantaeth felly sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr mewn ffordd fwy trwyadl, pwrpasol a chyson. Er mwyn deall barn

[10] Adolygiad o'r Asiantaeth Safonau Bwyd (Y Farwnes Dean, 2005)
[11] Er enghraifft, gwaith yr Asiantaeth gyda'r Gymdeithas Strôc a Sefydliad Prydeinig y Galon, fel rhan o Gam 1 yr Ymgyrch Halen.

defnyddwyr yn well, ac yn bwysicach oll, beth sy'n newid ymddygiad defnyddwyr, mae angen i ni wneud defnydd gwell a mwy priodol o wyddorau cymdeithasol, ymchwil gymdeithasol ac ymchwil i'r farchnad. Ar hyn o bryd, mae'r ffiniau rhwng y gwyddorau cymdeithasol, ymchwil gymdeithasol ac ymchwil i'r farchnad yn aneglur, ond trwy greu cysylltiadau â gwaith y Prif Wyddonydd Gweithredol bydd hyn yn helpu i leihau'r ansicrwydd o ran defnyddio'r amrywiol ddisgyblaethau gwyddorau cymdeithasol a'u dilysrwydd.

16. Yn olaf, er mwyn cyflawni hyn bydd angen cyflwyno Cynllun Gweithredu Defnyddwyr wedi'i i gostio'n llawn i'r Weithrediaeth yn yr hydref. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â defnyddwyr a'n bod yn defnyddio gwaith ymchwil defnyddwyr yn ein gwaith o reoli rhanddeiliaid.

Camau i'w Cymryd gan y Bwrdd

17. Gwahoddir y Bwrdd i:

- **nodi'r** gweithgareddau sydd ar waith ar hyn o bryd i gasglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr.

ATODIAD A

YMGYSYLLTU Â DEFNYDDWYR: Y CHWE MIS DIWETHAF

Ein her dros y chwe mis diwethaf oedd ennyn dealltwriaeth well o gydberthynas pobl â bwyd. A yw, er enghraifft, yn fater o angenrheidrwydd? Neu a yw'r gydberthynas yn fwy cymhleth? A ydynt yn poeni am eu hiechyd a'u lles eu hunain? A ydynt yn poeni am iechyd a lles eu plant, eu teulu, neu'r gymdeithas yn gyffredinol? A yw bwyd felly yn ddylanwad neu'n ffactor mawr yn eu bywydau?

Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn ac mae ein barn ein hunain wedi newid a datblygu yn ystod y cyfnod hwnnw. Aethom ati ym mis Ionawr 2005 i feddwl am ddefnyddwyr fel is-grwpiau - h.y. dynion, merched, hen, ifanc, cyfoethog, tlawd, gwyn, du, ethnig lleiafrifol, gwledig, trefol ac ati gan greu strwythurau a allai gasglu barn y grwpiau gwahanol hyn.

Newidiodd ein barn yn sylweddol ar ôl y Seminar Gwyddorau Cymdeithasol oherwydd gall pobl fod yn rhan o'r grwpiau hyn, ond nid ydynt i gyd yn meddwl nac yn ymddwyn yn yr un ffordd. Nid oes gan bob merch er enghraifft ddiddordeb mewn bwyd; nid yw ppb grŵp ethnig lleiafrifol wedi'i allgau yn gymdeithasol; nid yw pob person cyfoethog yn bwyta'n iach a thrwy ddyrannu pobl i'r grwpiau hyn roeddem yn gwneud tybiaethau mawr ynglŷn â'u barn, eu hagweddau a'r ffordd y maent yn meddwl ac yn cysylltu â bwyd.

Yn fwy diweddar, aethom ati i lunio 3 grŵp a oedd, yn ein barn ni, yn cynrychioli safbwyntiau gwahanol ddefnyddwyr o ran bwyd orau. Yn ddiddorol iawn, mae'r grwpiau hyn yn torri ar draws yr is-grwpiau y cyfeiriwyd atynt eisoes ac rydym wedi nodi'r 3 grŵp hyn fel a ganlyn:

- Y defnyddwyr hynny sy'n gwybod y dylent fwyta'n iach ac sy'n gwneud hynny.

- Y defnyddwyr hynny sy'n gwybod y dylent fwyta'n iach ond nid ydynt yn gwneud hynny.

- Y defnyddwyr hynny nad ydynt yn gwybod bod angen iddynt fwyta'n iach ac felly nid ydynt yn gwneud hynny.

Rydym wedi treulio'r amser mwyaf yn canolbwyntio ar yr ail grŵp, pobl sy'n gwybod y dylent fod yn bwyta'n iach ond nid ydynt yn gwneud hynny. Yng ngeiriau un defnyddiwr "....os na allaf wneud bwyta'n iach yn flaenoriaeth, ni fydd unrhyw ymgyrch gan y llywodraeth yn gwneud hynny" (Un o drigolion hŷn Manceinion mewn digwyddiad You Speak, We Listen!).

Efallai mai'r grŵp olaf yw'r anoddaf i'w gyrraedd. Nid ydynt yn ystyried bwyd fel mater o bwys ac mae'n bosibl nad ydynt yn deall y gallai fod angen iddynt newid eu deiet neu eu hymddygiad. Yn y digwyddiadau rydym wedi eu trefnu, rydym wedi gweld

cymysgedd o bobl sy'n syrthio i'r ddau grŵp cyntaf, ein her fel Asiantaeth, yw deall y rhai yn y trydydd grŵp llawer yn well.

ATODIAD B

DIGWYDDIADAU GWRANDO AR FARN DEFNYDDWYR

Digwyddiadau You Speak We Listen!

Cynlluniwyd ein digwyddiadau 'You Speak, We Listen! er mwyn rhoi cyfle i ddefnyddwyr ddweud eu dweud a lleisio barn am fwyd yn gyffredinol. Gwnaethom gynnal 3 digwyddiad mewn ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig ym Manceinion, Hartlepool a Dudley[12]. Er nad oedd y digwyddiadau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at lunio polisiau, llwyddwyd i ddeall bod dewis wedi dod yn rhwystr arall i rai defnyddwyr (ac roedd y rhan fwyaf o'r defnyddwyr y gwnaethom wrando arnynt ar incwm isel). Dywedodd rhai eu bod wedi drysu oherwydd yr amrywiaeth o ddewisiadau 'bwyta'n iach' sydd ar gael ar eu cyfer bellach, ac oherwydd hynny, roedd llawer yn teimlo nad oeddent yn gallu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iach ac yn afiach mewn gwirionedd. I eraill, nid oedd unrhyw ddewis. Roedd yn fyth, "rhywbeth i'r cyfoethog" gan fod arian yn brin a'u 'dewisiadau' yn dibynnu ar beth oedd yn rhad, yn fforddiadwy neu'n addas i blant (h.y. byddai eu plant yn ei fwyta) ac yn eu llenwi. Roedd darllen labeli bwyd a bwyta prydau maethlon a chytbwys yn ddyhead, yn hytrach na realiti.

Rhoddwyd adborth ar y materion hyn i Adrannau priodol o fewn yr Asiantaeth ac er nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â chanlyniad polisi penodol gwnaethant roi cipolwg unigryw o fywydau defnyddwyr. Rydym yn ystyried rhannu'r canfyddiadau â gweddill yr Asiantaeth trwy seminar amser cinio gan wahodd swyddogion polisi i wneud awgrymiadau ar gyfer ein cyfres nesaf o ddigwyddiadau.

Fforymau'r Bobl

Rydym hefyd wedi sefydlu fforymau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Roedd rhai o'r cymunedau y buom yn siarad â hwy yn byw mewn rhannau gwledig o'r wlad, ac ardaloedd anghysbell yn aml. Y teimlad cyffredinol oedd bod eu hanghenion yn cael eu diystyru o gymharu â phobl a oedd yn byw mewn trefi a dinasoedd mwy. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gwybod unrhyw beth am yr Asiantaeth, gallai rhai ohonynt gofio ein hysbysebion teledu. Yn ddiddorol, ni fyddai un person y buom yn siarad ag ef yn ystyried cysylltu â'r Asiantaeth (nid oeddent yn sylweddoli er enghraifft bod gennym linell gymorth i ddefnyddwyr) ac nid oedd unrhyw un wedi clywed am ein hamcanion na'r ymadrodd, ‘rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf’.

Gweithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau presennol

[12]Defnyddiodd y digwyddiadau hyn rai o'r ymagweddau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r Uwchgynhadledd Pensiynau a'r digwyddiadau Your Health, Your Care, Your Say, lle estynnwyd gwahoddiad i'r cyhoedd fynegi eu barn.

Rydym wedi dechrau gwneud defnydd gwell o rwydweithiau presennol, fel mentrau bwyd cymunedol lleol sy'n gweithio gyda rhai o'r cymunedau mwyaf cymdeithasol ddifreintiedig yn y DU. Lle y bo'n bosibl rydym hefyd wedi gweithio gyda phrosiectau sydd naill ai wedi ennill neu wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau'r Fonesig Sheila McKechnie a lle y mae'r Asiantaeth eisoes wedi llwyddo i greu cysylltiad â chymuned leol.[13]. Mae 3 mantais i weithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau presennol:

- Gallwn gasglu gwybodaeth yn gyflym ynglŷn â barn defnyddwyr unigol am amrywiaeth o faterion bwyd

- Mae ein cyswllt â phobl sy'n gweithio'n lleol (nid yn unig yn rhanbarthol) yn gwella, ac mae hynny'n gwella ein dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu cymuned benodol

- Mae'r broses adborth wedi gwella'n fawr gan ein bod yn gweithio gydag un pwynt cyswllt y gellir ymddiried ynddo.

Yn ddiweddar buom yn gweithio gyda'r Hartcliffe Health and Environmental Group ym Mryste a Phrosiect 'Eatwise' Buttershaw yn Bradford a buom yn trafod y risg ddamcaniaethol o glefyd y crafu annodweddiadol a BSE mewn defaid. Cyflwynwyd gwybodaeth am y prosiectau hyn a 7 grŵp ffocws ansoddol arall i'r Adran TSE sy'n ystyried sut y gellid rheoli'r risg pe bai'r fath achos yn codi. Mae rhagor o waith yn cael ei gynllunio ar gyfer eleni i weithio gyda mentrau bwyd cymunedol ar y drafodaeth am asid ffolig er mwyn cael barn ar yr opsiynau ymgynghori posibl.

Defnyddio Technoleg Newydd

Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi treialu technoleg newydd hefyd, fel gwelogau a fforymau trafod ar-lein er mwyn annog mwy o rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn trafodaethau mor amrywiol â champylobacter, salmonela a'r fenter Safer Food Better Business.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Hansard, sydd wedi rhoi cyngor i ni ar oblygiadau technegol ac ymarferol y gwaith hwn, a'r Adran Materion Cyfansoddiadol, sydd wedi ariannu'r gwaith. Os yw'r fforymau hyn yn llwyddiant, bydd rhagor o waith yn ymwneud ag ymgysylltu â defnyddwyr unigol yn cael ei ystyried a fydd yn arwain ymlaen o'r etholiadau ar-lein rydym yn eu cynnal o bryd i'w gilydd ar ein prif wefan yn **www.food.gov.uk**.

[13]Bob blwyddyn, cyflwynir dwy wobr i fentrau bwyd cymunedol yn y DU. Rhoddir £15,000 i brosiectau dros 3 blynedd ac fe'i hanogir i ddod yn fwy cynaliadwy ac yn hunangyllidol.